



Laguerta Uchaf

Yn y Pilipinas, mae nifer fawr o bobl yn byw mewn aneddiadau anffurfiol mewn ardaloedd dinesig lle gall llifogydd fod yn berygl. Mae tlodi ac amodau byw gwael yn broblem real yn yr ardaloedd hyn, ble mae miloedd o bobl wedi eu gwasgu at ei gilydd mewn slymiau gydag ychydig o wasanaethau.

Ymdopi gydag adleoliad dan orfodaeth: Artemio Duran, Laguerta Uchaf

Mae Artemio Duran yn llywydd ei gymuned yn Laguerta Uchaf, ar ymyl dinas Cebu, prifddinas rhanbarth Cebu.

Arferai ei gymuned a byw yn y ddinas ei hun, ond - yn annhebyg i gymunedau slym Baseco ac Estero de San Miguel, a lwyddodd i ymladd yr orfodaeth arnynt i symud (gweler Taflen 1) - cafodd ei gymuned ei symud allan o'r ddinas a'i hail-sefydlu yn y tir uchel ryw 7km i ffwrdd o'u cartref tua deg mlynedd yn ôl. Er mai slym heb fawr o wasanaethau oedd y cartref hwn, roedd Artemio yn agos at ei deulu a'i ffrindiau ac, yn allweddol, yn agos at ei le gwaith. Rhwygwyd y gymuned glos gan y clirio gorfodol hwn.

Adeiladwyd y dref newydd ar lethrau bryn, ac wrth i deuluoedd newydd symud yno, adeiladwyd y tai yn uwch ar y llethrau serth. Roedd y brif ffordd rhyw daith cerdded 15 munud i ffwrdd ar hyd ffordd bridd, sydd ym mherchnogaeth breifat. Am nifer o flynyddoedd, doedd gan drigolion Laguerta Uchaf ddim hawl i deithio ar y ffordd hon ac roedd yn rhaid iddynt sgrialu eu ffordd ar hyd ymyl afon fechan i lawr yr allt.

Brwydr gyfreithiol gyntaf y trigolion oedd sicrhau'r hawl i ddefnyddio'r ffordd bridd, ac fe lwyddwyd i wneud hynny gyda help un o bartneriaid Cymorth Cristnogol, FORGE (Fellowship for Organising Endeavours), a helpodd y gymuned i drafod gyda'r awdurdod lleol a'r perchennog.



Mae gwaith FORGE yn debyg i waith UPA (gweler Taflen 1), sef helpu trigolion gyda'r sefyllfa wleidyddol a'u cynghori ar faterion megis hawliau tir.

Diffyg gwasanaethau

Roedd diffyg gwasanaethau hefyd yn broblem yn Laguerta Uchaf. 'Dim ond jyngl oedd yma,' meddai Artemio wrth ddisgrifio'r dref yn ei dyddiau cynnar. 'Roeddem yn byw fel llygod mawr yma. Roedd rhaid inni ymolchi yn yr afon. Roedd dŵr glân mewn ffynnon, ond roedd angen cerdded pellter i'w nôl.'

Er bod y gymuned wedi ei chysylltu gyda'r prif gyflenwad dŵr yn 2010, mae'r dŵr mor ddrud, dim ond ambell dŷ sydd efo tap. Mae'n rhatach prynu dŵr potel ar gyfer yfed ac ymolchi: mae potel galwyn yn costio 3.5 peso (6c). Cysylltwyd y dref gyda'r cyflenwad trydan yn 2014. Cyn hynny, byddai pobl yn cysylltu'n anghyfreithlon - proses berygl, a chafodd ambell un ei ladd a thrydan.

Diweithdra

Roedd diffyg gwaith yn y dref newydd hefyd yn broblem sylweddol. Roedd rhaid i'r trigolion barhau i weithio yn ninas Cebu. Golyga hyn siwrnai dair rhan (gyda beic modur a dwy jeepney) gyda chostau teithio o 60 peso'r dydd (£1) - allan o gyflog o 150-300 peso (£2.50 - £5.00). Er bod Laguerta Uchaf yn cynnig gwell amgylchedd iddynt, roedd y diffyg cyflogaeth yno'n golygu eu bod yn llawer tlotach.

Yn y cyfamser, mae'n rhaid i'r gymuned ddelio gyda thirlithriadau cyson sydd wedi deillio o'r ffaith iddynt adeiladu tai ar y llethrau serth. Eglura Artemio bod y

trigolion wedi derbyn hyfforddiant atal trychineb, gyda chymorth FORGE, sydd wedi helpu llawer arnynt. 'Rydym yn cynnal driliau a hyfforddiant atal trychineb,' eglurodd. 'Rydym eisoes wedi gweld effeithiolrwydd hyn: ar 8 Mai 2016 roedd tân a llwyddodd y trigolion i'w roi allan cyn i'r gwasanaeth tân gyrraedd - fe wnaethom ni ganu'r larwm a threfnu cyfnewid bwcedi. Mae wedi rhoi hyder inni y gallwn ddygymod.'

Goresgyn ac atal trychinebau yn Mantuyong

Am 1.35 y bore ar 12 Mawrth 2016, deffrodd trigolion Mantuyong i sŵn cloch larwm: roedd tân yn rhuthro trwy eu tref. Llosgwyd tua 300 cartref i'r llawr ac effeithiwyd ar fwy na 2,000 o bobl. Yn rhyfeddol, ni fu neb farw, ond cyfeirir at olion y dref fel eu 'Ground Zero'.

Mae Maria Elpe Blaguerro, neu Bebie fel y gelwir hi - gwraig 46 oed o Mantuyong - bellach yn byw mewn pabell yn ymyl y dre. Mae'n aelod o Bwyllgor y Merched ac yn cynnig arweiniad a chefnogaeth i'w chymuned; a chydag help FORGE mae wedi helpu trigolion i ailadeiladu eu bywyd mewn cartrefi dros dro. Nid bywyd hawdd sydd gan Bebie. Pan oedd yn 34 bu farw ei gŵr, gan ei gadael yn feichiog a gofal ganddi am bedwar o blant. Gan nad oedd yn gallu gofalu am blentyn ychwanegol, cafodd y babi ei fabwysiadu gan aelod o'r teulu. Nid yw'r sialensiau hyn wedi atal Bebie rhag creu bywyd newydd iddi hi ei hun, ac mae ei chryfder personol a'i phenderfyniad wedi bod yn amhrisiadwy i'w chymuned.

Roedd Bebie yn aelod o Gymdeithas Perchnogion Tai lleol ond ni allai'r gymdeithas gyflawni fawr oherwydd nad oedd y cyngor lleol yn fodlon gweithio a hi. Ond camodd FORGE i mewn i'r sefyllfa. Mae'r cyngor bellach yn fodlon gweithio gyda'r gymdeithas. 'Mae FORGE wedi helpu llawer,' meddai Bebie. 'Maent wedi fy ngrymuso.'

Gyda help FORGE, mae Pwyllgor y Merched a'r Plant wedi sefydlu cwmni gwerthu reis, gan gynnig cyflogaeth bwysig i'r merched. Maent yn cynhyrchu 'puso' (reis wedi ei lapio a'i ferwi mewn cas o ddail coconyt), ac yn ennill 4 peso (6c) am 100 y maent yn eu cynhyrchu.

Fodd bynnag, mae byw mewn pebyll yn anodd. Rhoddodd y llywodraeth help i tua 500 teulu i adsefydlu ar dir yn ymyl canolfan gynhadledd. Sefyllfa amherffaith ydyw, gan fod trydan i gynhesu'r pebyll gyda'r nos yn ddrud iawn (20 peso'r noson (33c)). Mae'r dyddiau, wedyn, yn hynod o boeth ac i'r rhai sy'n gweithio nos, mae cysgu allan yn ystod y dydd yn llawer gwell gan fod y pebyll mor boeth. Yn y tymor glaw, mae bywyd yn anodd iawn iddynt.



Bethan a Cheryl yn cyfarfod Bebie, sydd yn dal copi o'r Wawr!

Atal trychineb

Mae lleihau trychineb yn un agwedd bwysig o waith FORGE. Mae hyfforddiant tân yn holl bwysig ble mae tai mor agos at ei gilydd ac mae driliau cyson yn dysgu'r trigolion be sydd raid iddynt ei wneud pan fydd tân. Cyn y tân difrifol ar 12 Mawrth, roedd y gymuned wedi llwyddo i ddiffodd dau dân cyn i unrhyw ddifrod difrifol ddigwydd. Ac er bod y trydydd tân, a ddigwyddodd ganol nos, wedi bod mor ddinistriol, sicrhodd y driliau y gallodd y trigolion ffoi i ddiogelwch.

Bu hyfforddiant FORGE o help mawr i'r gymuned ymdrechu dros ei hawliau a sicrhau gwasanaethau gwell.

Y cam nesaf i'r trigolion fydd sicrhau yr adeiladir tai newydd yn eu tref. Mae'r gwaith wedi ei gychwyn, ond mae'n broses hir a bydd sicrhau eu hawliau cyfreithiol yn holl bwysig.



Artemio, llywydd y gymuned, yn cyfarfod gyda'i gymdogion.



Mae tai Mantuyong yn agos at ei gilydd ac felly gall tân ymledu'n sydyn.



Gweddi

Arglwydd Dduw, diolchwn i ti am waith partner Cymorth Cristnogol, FORGE, a'r holl waith a wnânt dros y rhai sydd wedi eu gorfodi o'r slymiau.

Gweddiwn am fendith ar eu gwaith hyfforddi ac eiriol. Diolch iti fod Artemio a Bebie wedi bod yn ymarfer eu doniau fel arweinwyr yn y gymuned oherwydd mewnbwn FORGE. Yn enw Iesu.

Amen.